Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JH-/1628/22

Jayne Bryant AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

26 Mai 2022

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Ebrill ynghylch y papur ar bwerau cyfreithiol a chylch gwaith Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, a rannwyd gyda chi gan y cyn Gomisiynydd Plant, yr Athro Sally Holland.

Mae'r papur yn codi tri maes y byddai angen deddfwriaeth bellach i fynd i'r afael â nhw:

- Pwerau cyfreithiol, cwmpas a chylch gwaith diwygiedig Comisiynydd Plant Cymru
- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn
- Trosglwyddo proses benodi Comisiynydd Plant Cymru o Lywodraeth Cymru i'r Senedd.

Ar 17 Mawrth 2022, atebais hen bapur Comisiynydd Plant Cymru, ac rwy'n amgáu copi o'm hymateb. Roedd fy ymateb yn ymdrin â phob un o'r materion hyn ac rwy'n falch o gael y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am safbwynt Llywodraeth Cymru ar bob un o'r materion a godwyd.

Pwerau cyfreithiol, cwmpas a chylch gwaith diwygiedig Comisiynydd Plant Cymru
Fel y gwyddoch, yn 2021 defnyddiodd y cyn Gomisiynydd Plant y pŵer yn adran 72B o Ddeddf Safonau Gofal 2000 i adolygu arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref, a rheoleiddio ysgolion annibynnol. Yn ei phapur, amlinellodd y cyn-Gomisiynydd Plant yr anawsterau yr oedd yn teimlo ei bod yn eu hwynebu wrth gynnal ei hadolygiad, gan briodoli rhai ohonynt i anghysondeb neu fylchau yn y ddeddfwriaeth bresennol. Bydd yn anodd dod o hyd i amser yn nhymor presennol y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Senedd i gynnal adolygiad llawn o'r pwerau a'r cylch gwaith cyfreithiol, yn enwedig o gofio nad yw adolygiad o'r fath yn ymrwymiad o fewn y Rhaglen Lywodraethu. Yn y cyfamser, fodd bynnag, bydd fy swyddogion yn trafod gyda swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ynghylch y camau nesaf posibl o ran:

- cylch gwaith Comisiynydd Plant Cymru i gynnwys grwpiau penodol o bobl ifanc hyd at 25 oed
- yr ystod o sefydliadau y mae gan y Comisiynydd yr hawl i ymholi neu ymchwilio iddynt, yn enwedig cartrefi plant.

Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn llawn
Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o ymgorffori CCUHP yn llawn, ond mae llawer o waith i'w wneud cyn y gellir gwireddu'r uchelgais hwn yng Nghymru. Rwy'n dweud yn glir bod angen dull gweithredu hirdymor i ddatblygu'r agenda hawliau dynol yng Nghymru, a bydd ein dull o ymgorffori'n llawn yn cael ei ystyried wrth i ni fwrw ymlaen â'r adroddiad ymchwil Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru.

Trafodwyd ymateb drafft i'r adroddiad hwn yng nghyfarfod y Grŵp Llywio ar 25 Ebrill o dan fy nghadeiryddiaeth i, gyda'r Cwnsler Cyffredinol yn bresennol. Yn y cyfarfod hwnnw, cadarnhawyd ein bwriad i edrych ar opsiynau ar gyfer ymgorffori ystod o gonfensiynau hawliau'r Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys dull cyfannol fel Bil Hawliau Dynol Cymru. Bydd y gwaith hwn yn parhau i gael ei oruchwylio gan y Grŵp Llywio, a fydd yn cael ei adnabod o hyn ymlaen fel y Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol, gyda chefnogaeth gweithgorau i'w alluogi i wneud gwaith manwl yn gyflym a gwahodd arbenigedd ychwanegol lle y bo'n briodol. Caiff ein hymateb i'r adroddiad ymchwil ei gwblhau a'i gyhoeddi cyn bo hir. Byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod pan fydd ein hymateb terfynol i'r adroddiad ymchwil Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi.

Ffactor arall y bydd angen ei ystyried yw goblygiadau dyfarniad y Goruchaf Lys ar gymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth yr Alban, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar Gymru. Er bod ein gwaith i archwilio opsiynau ar gyfer ymgorffori ar y gweill, byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu'r agenda hawliau plant drwy'r cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Cynllun Codi Ymwybyddiaeth, a'r Cynllun Hawliau Plant diwygiedig.

Trosglwyddo proses benodi Comisiynydd Plant Cymru o Lywodraeth Cymru i'r Senedd
Rwy'n ymwybodol o farn Comisiynydd Plant Cymru ar y pwnc hwn ac rwy'n llwyr ddeall ac yn gwerthfawrogi ei barn ar wella'r broses. Fodd bynnag, rwy'n parhau i fod o'r farn bod y trefniadau presennol ar gyfer penodi Comisiynydd Plant Cymru yn gweithio'n dda. Mae Llywodraeth Cymru yn parchu annibyniaeth Comisiynydd Plant Cymru yn llawn, ac nid wyf yn credu bod yr annibyniaeth hon wedi'i thanseilio gan fod Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses recriwtio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ar y materion hyn.

Yn gywir,

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:

Professor Sally Holland
Children's Commissioner for Wales

Ceirios.Williams@childcomwales.org.uk

17 March 2022

Dear Sally,

Thank you for your letter of 11 November and your accompanying paper on the Children's Commissioner for Wales (CCfW)'s legal powers and remit. The paper is extremely helpful and is timely as we reflect on the role of the Children's Commissioner more than 20 years since the office was established.

Your letter raises three areas which would require further legislation:

- Revised legal powers, scope and remit of the CCfW;
- Full incorporation of the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC); and
- Transferring the appointment process of the CCfW from the Welsh Government to the Senedd.

I will respond to each issue in turn.

CCfW legal powers, scope and remit
Your paper raised three main areas relating to your legal powers, scope and remit:

- Review the CCfW Regulations aligned to the exercise of the S.72B power to create a process for sharing documentation in a transparent and legal way;
- Widening the categories of services and organisations in Wales over which the Commissioner has remit under Schedules 2A and 2B (under the Care Standards Act 2000); and
- Extending the remit of the CCfW

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I believe it is important to review the scope and purpose of the legislation and there are one or two points of detail around children's homes and care leavers which our officials would like to explore with you. However, a full scale review is not in the Programme for Government, and finding legislative time will be very difficult during this Senedd term.

As you are aware, we are considering our approach to *Strengthening and advancing equality and human rights in Wales*. Within the next 18 months, I will ensure that these findings are considered as we develop our approach. This timescale will also provide an opportunity for the new Commissioner to share her thoughts.

Full incorporation on the UNCRC

As you are aware, we are supportive of the principle of full incorporation of the UNCRC. However, I recognise, following the recent Supreme Court judgement on the legislative competence of the Scottish Government, we will need to carefully consider the implications for Wales and what the impact of incorporation would be.

I am clear that a holistic approach is required to support the human rights agenda. This issue, together with the Programme for Government commitments to incorporate the UNCRPD and the CEDAW, will be considered as we take forward *the Strengthening and advancing equality and human rights in Wales* research report and I am also working with the Counsel General, Mick Antoniw, on this.

Appointment of the CCfW by the Senedd

I understand your concern on this issue. However, I remain of the view that the independence of the CCfW is not undermined by the Welsh Government being involved in the recruitment of the CCfW. I believe the current arrangements for all Commissioners are working well including the pre-appointment hearings by Senedd Committees which are an important part of this process.

May I thank you once again for setting out your thoughts. This government is committed to children's rights and will continue to progress this agenda through the 2021 Children's Rights Scheme, the Raising Awareness Plan and the new Children and Young Person's Plan.

Yours sincerely

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

cc. The Deputy Minister for Social Services